



Pwyso am gynnydd: hawliau menywod a chydraddoldeb rhywiol yn 2018

Crynodeb gweithredol



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission



Cyflwyniad

Dyma grynodeb gweithredol adroddiad llawn y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) ar gyflwr hawliau menywod a chydaddoldeb rhywiol yn 2018, Mae'n cynrychioli ein hymateb ffurfiol i wythfed adroddiad cyfnodol Llywodraeth y DU i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig (CU) ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod. Mae'n asesu'r cynnydd ar hawliau menywod ers 2013,¹ pan archwiliwyd yr hawliau a gynhwyswyd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW) ddiwethaf gan y Cenhedloedd Unedig. Trwy gadarnhau CEDAW ym 1986, addawodd Llywodraeth y DU fod yn rhwym wrth y rhwymedigaethau a gynhwysir ynddo.

Datganoli a chwmpas yr adroddiad hwn

Mae'r DU yn cynnwys pedair gwlad - Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae Senedd y DU wedi datganoli pwerau amrywiol i Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon, ac mae'n gyfrifol am faterion sydd heb eu datganoli (materion 'neilltuedig') a Lloegr. Mae'r cyfrifoldeb dros weithredu CEDAW felly yn sefyll â'r DU a llywodraethau datganoledig.

Yn ogystal, mae tair system gyfreithiol ar wahân yn y DU - Lloegr a Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Y Goruchaf Lys yw'r llys gyfraith uchaf yn y DU. Dyma'r llys apêl terfynol ar gyfer holl achosion sifil y DU. Mae hefyd yn penderfynu 'materion datganoli' ynghylch a yw'r awdurdodau datganoledig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon wedi gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu, o fewn eu pwerau.

Nod ein hadroddiad yw ymdrin â Lloegr a Chymru ar gyfer pob maes, a'r Alban am faterion a gedwir i Senedd y DU (er bod rhai ystadegau a thystiolaeth ar gyfer y DU neu Brydain Fawr yn gyffredinol yn cael eu cyflwyno). Mae'r adroddiad llawn, gan gynnwys ein hargymhellion, ar ein gwefan yn: www.equalityhumanrights.com/cedaw. Cyfeirir yr argymhellion at Lywodraethau'r DU a Chymru yn unig, er y gallant hefyd fod yn berthnasol i weinyddiaethau datganoledig eraill.

Bydd cyflwyniad ar wahân Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC) yn cwmpasu meysydd sydd wedi'u datganoli i Senedd yr Alban a bydd cyflwyniad ar wahân Comisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon (NIHRC) yn cwmpasu Gogledd Iwerddon. Bydd angen gweithio traws-lywodraethol ledled y DU gyfan. Mae'r EHRC yn disgwyl i holl lywodraethau'r DU gydweithio i wireddu'r hawliau a nodir yn CEDAW yn llawn.

Rôl a chylch gwaith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Sefydlwyd yr EHRC gan Senedd y DU trwy Ddeddf Cydraddoldeb 2006 fel corff annibynnol â mandad sy'n cwmpasu cydraddoldeb a hawliau dynol. Ymhlith cyfrifoldebau hawliau dynol eraill, mae'r EHRC yn gyfrifol am 'annog arferion da mewn perthynas â hawliau dynol'. Mae ein cylch gwaith daearyddol ar gyfer hawliau dynol yn cwmpasu Cymru, Lloegr a'r materion hynny yn yr Alban sydd wedi'u neilltuo i Senedd y DU.

Mae gan yr EHRC gyfrifoldebau hefyd i asesu ac adrodd ar gynnydd y DU wrth wireddu'r hawliau dynol yn y cytuniadau y mae wedi eu cadarnhau. Mae'r EHRC yn gweithio â Sefydliadau Hawliau Dynol Cenedlaethol eraill (NHRlau) yn y DU - SHRC ac NIHRC - ac mae'n cysylltu ag adrannau ac asiantaethau 'r llywodraeth i gyflawni'r rôl hon. Mae'r tri NHRI yn dal achrediad 'Statws A' â'r Cenhedloedd Unedig.

Gwella statws hawliau dynol rhyngwladol mewn cyfraith ddomestig²

Er bod y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wedi'i ymgorffori yn y gyfraith ddomestig drwy'r Ddeddf Hawliau Dynol (HRA) 1998, nid yw llawer o gytuniadau rhyngwladol sy'n effeithio ar hawliau menywod, yn arbennig CEDAW, yn ffurfio rhan o fframwaith cyfreithiol domestig y DU ac felly ni ellir cael eu gorfodi gan lysoedd domestig. Rhoddir effaith rannol i nifer o hawliau CEDAW trwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010, nad yw wedi'i gweithredu'n llawn, a'r HRA, y mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i'w disodli â Deddf Hawliau Prydeinig. Rydym yn pryderu nad oes cynllun cydlynol ar gyfer gwireddu CEDAW yn llawn, yn arbennig o ystyried yr ansicrwydd cyfansoddiadol sylweddol yn y DU yn dilyn refferendwm yr UE ym mis Mehefin 2016. Gall y ffaith bod y DU yn tynnu'n ôl o'r UE olygu na fydd amddiffyniadau cydraddoldeb a hawliau dynol yn y dyfodol gan yr UE yn orfodol yng nghyfraith y DU ac y gellir dileu'r rhai sy'n bodoli eisoes. Mae hawliau cyflogaeth a chyllid ar gyfer gwasanaethau menywod yn feysydd sy'n achosi pryder arbennig.³

Cymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol a dinesig⁴

Yn y DU, mae menywod yn ffurfio 32% (y nifer uchaf erioed yn dilyn etholiad 2017) o gynrychiolwyr yn Nhŷ'r Cyffredin,⁵ a oedd yn gosod y DU yn 41ain yn fyd-eang ym mis Mai 2018.⁶ Dim ond 4% o ASau sy'n fenywod lleiafrifol ethnig.⁷ Mae cynrychiolaeth menywod mewn cynghorau lleol hefyd yn anghyfartal:

- Yn Lloegr, mae 33% o aelodau cyngor a 17% o arweinwyr cyngor yn ferched.⁸
- Yng Nghymru, mae 33% o gynghorwyr lleol a 18% o arweinwyr cyngor yn ferched.⁹

Ystyrir bod canfyddiadau cyhoeddus gwael o wleidyddiaeth a brawychu ASau yn rhwystrau mawr i fwynhad menywod o'r hawl i gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol a chyhoeddus.¹⁰

Mae nifer y menywod sy'n cael eu penodi'n gadeiryddion cyrff cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr yn parhau i fod yn isel (28%),¹¹ er bod y duedd gyffredinol mewn penodiadau cyhoeddus ers 2012 wedi bod yn gadarnhaol; roedd merched yn ffurfio 45.5% o'r holl benodiadau ac ailbenodiadau cyhoeddus yn 2016/17 yng Nghymru a Lloegr.¹² Mae byrddau cwmnïau preifat yn gwneud yn waeth: ym mis Hydref 2017 cynrychiolaeth menywod ar fyrddau mewn 100 o gwmnïau FTSE oedd 27.7%.¹³

Yn 2017, cyhoeddodd y farnwriaeth gynllun gweithredu i wella amrywiaeth.¹⁴ O 1 Ebrill 2017 ymlaen, dim ond 28% o farnwyr y llys a 45% o feirniaid tribiwnlys yng Nghymru a Lloegr oedd yn fenywod.¹⁵

Trais, aflonyddu a cham-drin yn seiliedig ar ryw ¹⁶

Mae continwrm trais yn erbyn menywod a merched (VAWG), ar ei ffurfiau niferus, yn adlewyrchu anghydraddoldebau strwythurol ehangach ynghylch rhywedd yn y DU. Mae menywod yn llawer mwy tebygol na dynion o brofi mathau penodol o drais, megis troseddau rhywiol (amcangyfrifir bod 95% o'r holl ddioddefwyr trais yn fenywod),¹⁷ trais domestig a thrais 'seiliedig ar anrhydedd' bondigrybwyll. O lwyth achosion VAWG Gwasanaeth Erlyn y Goron yn 2016/17, roedd 83% yn ymwneud â cham-drin domestig.¹⁸

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2017, cofnododd yr heddlu gynnydd o 25% mewn troseddau rhywiol yng Nghymru a Lloegr.¹⁹ Mae adroddiadau o drais "seiliedig ar anrhydedd" bondigrybwyll i heddluoedd yn y DU wedi cynyddu o 53% ers 2014.²⁰ Eto i gyd, mae diffyg adroddiadau ac is-gofnodi, cyfraddau atgyfeirio isel i wasanaethau cymorth a chyfraddau erlyn ac euogfarnu isel ar gyfer troseddau VAWG yn broblemau parhaus.²¹ Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif nad yw pedwar o bob pump (79%) sydd wedi goroesi cam-drin gan bartneriaid yn ei riportio i'r heddlu;²² mae'r elusen Rape Crisis yn amcangyfrif mai dim ond oddeutu 15% o oroeswyr trais rhywiol sy'n riportio eu profiad i'r heddlu.²³

Nid yw llawer o heddluoedd ledled Cymru a Lloegr wedi'u paratoi'n ddigonol i ddiogelu dioddefwyr trais 'seiliedig ar anrhydedd' bondigrybwyll.²⁴ Ymhellach,

oherwydd llai ogyllid, bu toriadau i wasanaethau cymorth i fenywod,²⁵ er bod y galw wedi parhau i godi.²⁶

Mae rhai grwpiau yn profi VAWG yn anghymesur, gan gynnwys menywod a merched ag anableddau dysgu, problemauiechyd meddwl neu ddibyniaeth ar gyffuriau/alcohol a'r rhai sy'n wynebu digartrefedd.²⁷ Dywedodd Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar drais yn erbyn menywod yn 2015 y gallai menywod o rai lleiafrifoedd ethnig wynebu canlyniadau pellach o ran trais rhywiol, megis cywilydd teuluol neu gymunedol, stigmatiddio a gwrthod.²⁸ Mae menywod anabl yn profi lefelau anghymesur o bob math o drais a cham-drin gan ofalwyr, partneriaid a'r rhai hynny yn y gymuned,²⁹ ac yn wynebu rhwystrau ychwanegol wrth gael mynediad at gymorth priodol.³⁰

Yn 2015, cyflwynwyd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (Cymru)³¹, ac, yn Lloegr a Chymru, daeth trosedd newydd o 'ymddygiad rheoli neu orfodi mewn perthynas agos neu deuluol' i rym.³² Yn 2016, cyhoeddodd Llywodraeth y DU strategaeth VAWG ddiwygiedig.³³ Nod y strategaeth yw lleihau pob math o VAWG a chynyddu adrodd, atgyfeiriadau'r heddlu, erlyniadau ac euogfarnau. Nid oes atebolrwydd clir, fodd bynnag, os na fydd adrannau'n cyflawni yn ôl y cynllun gweithredu strategaeth VAWG. Ymhellach, mae angen ymateb ledled y DU o dan Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar atal a mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a thrais yn y cartref ('Confensiwn Istanbul').³⁴ Llofnododd y DU y Confensiwn yn 2012 ond nid yw wedi llwyddo i'w gadarnhau. Yn 2017, addawodd Llywodraeth y DU gyflwyno Mesur Cam-drin Domestig, ac ymgynghorodd ynghylch ei gynigion yn 2018.

Mae anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM) yn fath o VAWG, sy'n gwahardd hawliau menywod a merched yn ddifrifol. Yn ôl amcangyfrifon o 2011, roedd FGM yn effeithio ar 137,000 o fenywod a merched yng Nghymru a Lloegr,³⁵ ond nid yw'r union rif yn hysbys. Sefydlodd Llywodraeth y DU uned FGM³⁶ arbenigol a chyhoeddwyd canllawiau statudol aml-asiantaethol yn 2016.³⁷ Fe wnaeth Deddf Troseddau Difrifol 2015 ehangu a chryfhau'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer FGM.³⁸

Nid oes unrhyw droseddau ar wahân na darpariaethau dedfrydu gwell³⁹ ar gyfer troseddau casineb ar sail rhyw neu rywedd rhywun, ac mae diffyg data sydd ar gael i'r cyhoedd ynghylch rhyw neu rywedd dioddefwyr, fel y'i adroddir i'r heddlu.⁴⁰ Mae'r prosiect cenedlaethol ar gyfer mesur digwyddiadau gwrth-Fwslimaidd wedi canfod bod mwy na hanner y rhai hynny a adroddodd am ddigwyddiadau ym 2016 yn fenywaidd, a gallai dwy ran o dair o'r rhai hynny gael eu disgrifio fel 'gweledol Foslemaidd' ar adeg y digwyddiad. Ymhellach, canfuwyd bod merched yn dargedau penodol ar gyfer cam-drin ac aflonyddu gwreig-gasaol ar-lein.⁴¹ Mae sefydliadau

cymdeithas sifil yn adrodd bod oddeutu dwy ran o dair o ddefnyddwyr benywaidd Facebook a Twitter wedi profi cam-drin ar-lein, gan gynnwys negeseuon rhywiaethol, casineb eithafol gwleidyddol a bygythiadau trais.⁴² Canfu arolwg EHRC o 50 o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT) (hanner ohonynt yn fenywod) fod cam-drin ar lafar, bygwth ac aflonyddu ar sail cyfeiriadedd rhywiol a/neu hunaniaeth rhywedd yn cael eu nodi fel profiadau rheolaidd.⁴³

Mynediad i gyfiawnder sifil ⁴⁴

Ers cyflwyno Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012, nid yw cymorth cyfreithiol bellach ar gael mewn rhai meysydd, gan gynnwys y rhan fwyaf o faterion ynghylch cyfraith teulu, tai a dyled. Mae hyn yn debygol o gael effaith anghymesur andwyol ar fenywod, sydd wedi'u gor-gynrychioli yn y meysydd hyn o gyfraith, a allai gyfyngu ar eu mynediad i gyfiawnder.⁴⁵

Canfu dyfarniad Llys Apêl fod y rheoliadau tystiolaeth i brofi cam-drin domestig yn anghyfreithlon ac yn creu rhwystrau i fenywod sy'n goresi ynghylch cyrchu cymorth cyfreithiol.⁴⁶ Ar ôl hynny, cynyddodd Llywodraeth y DU yr ystod o dystiolaeth dderbyniol a thynnodd y terfyn amser pum mlynedd ar dystiolaeth.⁴⁷

Ym mis Gorffennaf 2013, cyflwynwyd ffioedd i gyrchu tribiwnlysoedd cyflogaeth. Cafodd hyn effaith anghymesur ar fenywod mewn perthynas â hawliadau gwahaniaethu⁴⁸: gostyngodd gwahaniaethu ar sail rhyw a hawliadau cyflog cyfartal, lle mae menywod yn cynrychioli pedwar rhan o bump o'r hawllyr, o 76% a 57% yn eu tro erbyn 2017. Gostyngodd y nifer o hawliadau gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth o 42%.⁴⁹ Ym mis Gorffennaf 2017, datganodd Goruchaf Lys y DU fod gorchymyn ffioedd tribiwnlys y tribiwnlys cyflogaeth a'r tribiwnlys apêl cyflogaeth yn anghyfreithlon. Yn ychwanegol at ffioedd, nodwyd bod y gofyniad i gyflwyno hawliad beichiogrwydd a mamolaeth o fewn tri mis o'r gwahaniaethu'n digwydd yn rhwystr.⁵⁰

Masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern ⁵¹

Yn 2015, daeth y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern (MSA) i rym yng Nghymru a Lloegr, gan uno a symleiddio deddfwriaeth flaenorol, gan nodi cosbau cynyddol am droseddau masnachu a chryfhau'r amddiffyniadau.⁵² Er gwaethaf cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau i gorff goruchwylio'r DU, sef y Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM)⁵³ mae'r niferoedd yn dal i fod yn fach o'u cymharu ag amcangyfrif y Swyddfa

Gartref o 10,000-13,000 o ddiodefwyr yn y DU,⁵⁴ a gallai hyd yn oed yr amcangyfrif hwn fod yn rhy isel.⁵⁵ Mae data'n awgrymu nad yw atgyfeiriadau cynyddol yn trosi'n gynnydd yn y nifer o ymchwiliadau, erlyniadau ac euogfarnau.⁵⁶

Mae nifer o ddiffygion wedi'u nodi yn yr MSA, megis bylchau yn y diffiniad o droseddau masnachu ac absenoldeb rhwymedigaeth glir o beidio ag erlyn ddiodefwyr plant ac o ddyletswydd gyfreithiol benodol i ddarparu cymorth i ddiodefwyr, yn ogystal â bylchau amddiffyniad a chymorth mewn perthynas â gweithwyr domestig tramor, y mwyafrif ohonynt yn fenywod.⁵⁷

Yn dilyn pryderon ynghylch gweithredu'r NRM,⁵⁸ comisiynodd Llywodraeth y DU adolygiad mawr yn 2014⁵⁹ ac yn 2017 cyhoeddodd nifer o newidiadau sy'n anelu at wneud y broses atgyfeirio yn haws a symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae pryderon yn parhau o ran cofnodi ac adrodd, safonau gofal, ac argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau cyngor cyfreithiol.⁶⁰

Cadw a lloches ⁶¹

Mae sefydliadau cymdeithas sifil wedi galw ar Lywodraeth y DU i ystyried gofynion penodol menywod mewn carchardai, a'r angen i leihau'r ddibyniaeth ar ddedfrydau o garchar.⁶² Mae menywod yn y carchar yn fwy tebygol o hunan-niweidio na dynion.⁶³ Gallai cynlluniau cydgysylltu a gwyro (a elwir yn wasanaethau gwyro yng Nghymru), sy'n helpu i nodi oedolion a phlant ag anghenion penodol a lle mae eisoes yn ofynnol iddynt ddatblygu llwybrau rhyw-benodol ar gyfer menywod, helpu i leihau'r defnydd o ddedfrydau o garchar⁶⁴ Fodd bynnag, mae llawer o wasanaethau heb ddigon o adnoddau. Mae ansawdd ac argaeledd gwasanaethau cymorth yn parhau'n anghyson, yn arbennig ar gyfer menywod o leiafrifoedd ethnig.^{65 66}

Dylid defnyddio cadw mewnfudwyr fel dewis olaf. Y DU yw'r unig wladwriaeth Ewropeaidd heb uchafswm amser ar gyfer cadw mewnfudwyr.⁶⁷ Cedwir y rhan fwyaf o fenywod yng Nghanolfan Symud Mewnfudwyr Yarl's Wood, lle cafwyd honiadau o gam-drin rhywiol ac ymddygiad amhriodol gan staff.⁶⁸ Cyflwynodd Deddf Mewnfudo 2016 derfynau amser ar gyfer faint o amser y gall menywod beichiog gael eu cadw gan atgyfnerthu na ddylid eu cadw heblaw am o dan amgylchiadau eithriadol yn unig; eto, mae menywod beichiog yn dal i gael eu cadw.⁶⁹ Roedd hefyd yn galw am gyfarwyddyd statudol i wella mesurau diogelu yn erbyn cadw unigolion agored i niwed.⁷⁰ Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu bod y canllawiau hyn wedi lleihau amddiffyniad i fenywod sy'n dioddef trais a masnachu yn seiliedig ar ryw.⁷¹ At

hynny, mae rhanddeiliaid wedi adrodd bod y broses sgrinio ar gyfer unigolion o'r fath yn annigonol, ac mae menywod sy'n agored i niwed yn parhau i gael eu cadw.⁷²

Yn Lloegr, mae ceiswyr lloches a wrthodwyd a phobl sydd â statws mewnfudo ansicr yn anghymwys am ofal iechyd am ddim ac eithrio gofal sylfaenol a thriniaeth brys.⁷³ Gallai dryswch ynghylch cymhwysedd ar gyfer gofal iechyd oedi eu mynediad i driniaeth, gan gynnwys gofal amenedigol, a chael effaith andwyol ar eu hiechyd.⁷⁴ Cyflwynodd Llywodraeth Cymru reoliadau yn 2009 i ganiatáu i geiswyr lloches a wrthodwydgael mynediad i ofal iechyd am ddim.

Mae pryderon pellach wedi codi o gwmpas cytundeb rhannu data ar ffurf memorandwm dealltwriaeth (MoU) rhwng yr Adran Iechyd, GIG Ddigidol a'r Swyddfa Gartref, sy'n caniatáu i staff y Swyddfa Gartref wneud ceisiadau i GIG Ddigidol am ddata cleifion yn Lloegr at ddiben gorfodi cyfraith mewnfudo.⁷⁵ Codwyd pryderon ynghylch potensial y cytundeb hwn i atal pobl rhag cyrchu a derbyn gofal iechyd ymhellach.⁷⁶ Cafodd yr MoU ei atal yn Mai 2018.⁷⁷ Nid yw'n glir a fydd unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth sy'n darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer rhannu data rhwng y cyrff hyn.

Ym 2016, fe wnaethom ymyrryd mewn achos a ganfu fod cau priodau ffoaduriaid allan rhag cael gwarchodaeth o dan y consesiwn Trais Domestig Tlodi - rheol sy'n galluogi dioddefwyr trais domestig â statws mewnfudo ansicr i wneud cais am ganiatâd amhenodol i aros – yn wahaniaethol.⁷⁸ Nid yw'r Rheolau Mewnfudo wedi'u diwygio eto i adlewyrchu penderfyniad y llys.

Safon byw ddigonol a nawdd cymdeithasol ⁷⁹

Mae newidiadau polisi lles a treth a wnaed rhwng mis Mai 2010 a mis Ionawr 2018 wedi cael effaith andwyol anghymesur ar hawliau menywod, yn arbennig menywod lleiafrifol ethnig,⁸⁰ i gael safon byw a nawdd cymdeithasol digonol. Canfu ein dadansoddiad, yn y flwyddyn 2022, fod menywod ar gyfartaledd yn gallu colli ychydig llai na £400 y flwyddyn oherwydd y diwygiadau, tra byddai dynion yn colli tua £30 yn unig. Gallai rhieni unigol, 90% ohonynt yn fenywod,⁸¹ gollu swm cyfwerth i hyd at 25% o'u hincwm net.⁸²

Cyflwynwyd Credyd Cynhwysol gan Lywodraeth y DU ym mis Hydref 2013, â'r nod datganedig o symleiddio'r system fudd-daliadau trwy gyfuno taliadau nifer o fudd-daliadau yn un taliad, sy'n cael ei dalu ar y cyd i gyplau. Fodd bynnag, mae hyn yn achosi pryder difrifol am annibyniaeth economaidd menywod, yn arbennig mewn

sefyllfaoedd o gam-drin domestig.⁸³ Mae newidiadau eraill i hawliau nawdd cymdeithasol yn cynnwys cyflwyno cap budd-daliadau sy'n effeithio'n arbennig ar rieni unigol, a'r terfyn credyd treth dau blentyn, ac o ganlyniad i hynny bydd aelwydydd yng Nghymru a Lloegr â thri neu fwy o blant yn colli o leiaf £900 bob blwyddyn ar gyfartaledd erbyn 2021/22.⁸⁴

O dan Ddeddf Pensiynau 1995, byddai oedran pensiwn y wladwriaeth (SPA) ar gyfer menywod yn cynyddu'n raddol i 65 erbyn 2020 i'w ddwyn yn unol â'r SPA presennol ar gyfer dynion. Mae'r ddeddfwriaeth ddilynol wedi cyflymu'r newidiadau hyn ac wedi codi'r SPA wedi'i gydraddoli i 66 erbyn Hydref 2020 a 67 erbyn 2028.⁸⁵ Bellach mae SPA rhai menywod nifer o flynyddoedd yn ddiweddarach na'r hyn y cynlluniwyd ar ei gyfer, a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar eu lles ariannol.⁸⁶ Mae'n debygol y bydd menywod anabl, gofalwyr a merched lleiafrifol ethnig yn cael eu heffeithio'n arbennig.⁸⁷ Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod galwadau yn gyson i newid yr amserlen cydraddoldeb neu i ddarparu unrhyw iawndal ariannol.⁸⁸

Yn ôl yr elusen ddigartrefedd Crisis, yn 2017 amcangyfrifwyd bod 236,000 o unigolion ym Mhrydain Fawr yn ddigartref, cynnydd o 33% ers 2011.⁸⁹ Mae tystiolaeth yn awgrymu⁹⁰ y gall menywod sy'n cysgu ar y stryd fod yn arbennig o agored i niwed. At hynny, yn 2013, cyflwynodd Llywodraeth y DU y 'cymhorthdal ystafell sbâr', pan fydd budd-daliadau tai tenantiaid yn cael eu lleihau os oes ganddynt ystafelloedd gwely sbâr. Canfu'r Goruchaf Lys ym 2016 fod hyn yn gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl, ond gwrthodon nhw hawliad menyw sy'n goroesi trais domestig a oedd ag 'ystafell ddiogel' yn ei chartref.⁹¹ Apeliwyd yr achos i Lys Hawliau Dynol Ewrop ym mis Ionawr 2018.⁹² Mae diffyg llety preswyl a thramwy ledled Prydain Fawr yn effeithio ar hawl menywod Sipsiwn a Theithwyr fel mater o drefn i gael safon byw ddigonol.⁹³

Amgylchiadau gwaith cyfiawn a theg ⁹⁴

Yn y DU rhwng Rhagfyr 2017 a Chwefror 2018, y gyfradd gyflogaeth gyffredinol ar gyfer menywod oedd 71%, o'i chymharu â 79.8% ar gyfer dynion ⁹⁵ Roedd menywod yn fwy tebygol o fod mewn swyddi cyflog isel, rhan-amser ac ansicr.⁹⁶ Mae'r gyfradd gyflogaeth yn amrywio'n sylweddol wrth gynnwys nodweddion gwarchoddedig eraill, megis ethnigrwydd neu anabledd.⁹⁷

Mae'n dal i fod yn gyffredin i fenywod ddwyn y mwyafrif o waith domestig a chyfrifoldebau gofalu. Gall cost uchel gofal plant fod yn afresymol. Datgelodd dadansoddiad gan y TUC, er bod cyflogau gwirioneddol wedi gostwng yn Lloegr

rhwng 2008 a 2016, cododd costau gofal plant o 48% dros yr un cyfnod.⁹⁸ Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi ymestyn eu gofal plant am ddim, er bod argaeledd a gweithredu hyn yn amrywio.⁹⁹ Mae croeso hefyd i gyflwyno absenoldeb rhiant a rennir. Fodd bynnag, awgrymodd arolwg o rieni a busnesau mai dim ond 1% o ddynion oedd wedi defnyddio hyn.¹⁰⁰

Mae aflonyddu yn y gweithle hefyd yn broblem i fenywod. Canfu ein hymchwil nad oedd tua hanner yr ymatebwyr a oedd wedi dioddef aflonyddu rhywiol yn y gwaith wedi adrodd am hynny, ac o'r rhai hynny a wnaeth, dywedodd hanner nad oedd cyflogwyr yn cymryd unrhyw gamau o ganlyniad. Dywedodd llawer eraill eu bod yn wynebu canlyniadau negyddol ar ôl adrodd.¹⁰¹

Canfu ein hymchwil i wahaniaethu ynghylch beichiogrwydd a mamolaeth yn y gweithle fod 11% o famau wedi dweud eu bod wedi gorfod gadael eu gwaith¹⁰²; sy'n gyfwerth â 54,000 o fenywod bob blwyddyn.¹⁰³

Mae gwahanu galwedigaethol yn gyffredin ac fe'i ystyrir yn ffactor sy'n cyfrannu'n sylweddol at y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.¹⁰⁴ Yn 2017, yn y DU, roedd y gwahaniaeth mewn tâl cyfartalog bob awr rhwng yr holl ddynion a'r holl fenywod yn gyffredinol yn 18.4%.¹⁰⁵ Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys y rhai hynny a gyflogir yn llawn amser ac yn rhan-amser. Y gwahaniaeth mewn cyflog cyfartalog bob awr rhwng dynion a menywod mewn gwaith amser llawn oedd 9.1%.¹⁰⁶ O'i gymharu â merched Gwyn Prydeinig, mae'r bwlch cyflog yn arbennig o eang ar gyfer menywod mewnfudwyr Pacistanaid a Bangladeshaid,¹⁰⁷ ac ar gyfer menywod anabl (yn dibynnu ar y math o nam, rhwng 4.3% a 18.9%)¹⁰⁸ Rydym yn croesawu mabwysiadu Rheoliadau 2017 Deddf Cydraddoldeb 2010 (Gwybodaeth Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau) sy'n berthnasol i gyflogwyr y sectorau preifat a gwirfoddol yn Lloegr, yr Alban a Chymru, ac mae'n ei wneud yn ofynnol i gyflogwyr â 250 neu fwy o gyflogeion gyhoeddi gwybodaeth ragnodedig ynghylch eu bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae gofynion tebyg wedi'u cyflwyno ar gyfer cyflogwyr yn y sector cyhoeddus.¹⁰⁹

Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Cyflog Byw Cenedlaethol newydd ym mis Ebrill 2016, sydd wedi cael effaith ystadegol gadarnhaol ar enillion menywod.¹¹⁰ Fodd bynnag, mae sefydliadau wedi amlygu bod y gyfradd yn brin o gyflog byw 'go iawn'.¹¹¹

Y safon iechyd gyflawnadwy uchaf¹¹²

Mae gan fenywod â nodweddion gwarchoddedig penodol ganlyniadau iechyd ac anawsterau gwahanol wrth gyrchu gwasanaethau iechyd. Er enghraifft, mae tebygolrwydd y bydd menywod Du Affricanaidd yn cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn fwy na saith gwaith yn uwch nag ar gyfer merched Gwyn Prydeinig.¹¹³ Mae canlyniadau iechyd Sipsiwn a Theithwyr yn waeth na rhai grwpiau eraill mewn cymdeithas, ond mae'r diffyg data yn ei wneud yn anodd iawn nodi profiadau penodol menywod Sipsiwn a Theithwyr.¹¹⁴ Mae menywod trawsryweddol yn wynebu ystod o broblemau sylweddol wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd cyffredinol a chyrchu mynediad at wasanaethau hunaniaeth rywedd.¹¹⁵

Mae tystiolaeth o 2017 yn awgrymu bod iechyd meddwl menywod ifanc a merched yng Nghymru a Lloegr wedi gwaethygu dros flynyddoedd diweddar.¹¹⁶ ¹¹⁷ Mae anawsterau'n parhau i fenywod a merched o bob oedran gael mynediad i'r cymorth iechyd meddwl sydd arnynt ei angen¹¹⁸.

Mae merched anabl yn wynebu rhwystrau penodol i gyrchu gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gwybodaeth atgenhedlu a rhywiol. Er enghraifft:¹¹⁹

- Ychydig iawn o wasanaethau sy'n cynnig cymorth a gwybodaeth ynghylch rhyw a pherthnasoedd ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.¹²⁰
- Nid yw menywod ag anableddau dysgu yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch y defnydd o atal cenhedlu, neu gyfyngir ar eu dewisiadau.¹²¹

Yn 2017 dim ond 12% o grwpiau comisiynu clinigol (CCGs) yn Lloegr oedd yn dilyn canllawiau cenedlaethol oedd yn caniatáu i fenywod cymwys o dan 40 gael tri chylch ffrwythlonni in vitro (IVF) fel rhan o'u gwasanaethau atgenhedlu a gynorthwyr (o'i gymharu â 24% yn 2013). Mae hyn yn groes i'r sefyllfa yng Nghymru, lle mae meini prawf a darpariaeth mynediad wedi'u safoni.¹²²

Cydraddoldeb mewn addysg¹²³

Ar gyfartaledd, mae merched yng Nghymru a Lloegr yn parhau i wneud yn well mewn addysg na bechgyn.¹²⁴ Fodd bynnag, nid yw'r perfformiad gwell hwn mewn addysg yn ymestyn i'r gweithle, yn rhannol oherwydd tueddiadau mewn dewisiadau pynciau. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i asesu'r ddarpariaeth gyrfaoedd cyfredol mewn ysgolion a cholegau yn Lloegr, a bydd yn cynhyrchu gwybodaeth ynghylch 'beth sy'n gweithio' i gefnogi ysgolion a cholegau yn well er mwyn annog

pobl i gymryd STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg), yn arbennig i ferched.¹²⁵

Mae cyfarwyddyd cyfredol ar berthnasoedd ac addysg ryw (RSE) ar gyfer ysgolion yn Lloegr wedi dyddio,¹²⁶ ac nid yw'r cwricwlwm presennol ond yn gofyn am addysgu gorfodol o fioleg rhyw. Rydym yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth y DU y bydd yn cyflwyno RSE gorfodol priodol ar gyfer oedran mewn ysgolion yn Lloegr. Gall RSE chwarae rhan bwysig i ferched a bechgyn wrth hyrwyddo perthynas iach ac atal cam-drin, aflonyddu a chamfanteisio ar blant.¹²⁷ Yng Nghymru, mae RSE yn rhan orfodol o'r cwricwlwm sylfaenol mewn ysgolion uwchradd, er bod addysgu'n amrywio rhwng ysgolion.¹²⁸

Mae bwlio ac aflonyddu mewn ysgolion yn peri pryder difrifol. Dangosodd ymchwiliad gan yr Adran Addysg (DfE) fod merched 14-15 oed yn Lloegr yn fwy tebygol na bechgyn o gael eu bwlio (42% yn erbyn 33%)¹²⁹ Mae bwlio'n niweidio cyrhaeddiad, uchelgeisiau, lles emosiynol ac iechyd pobl ifanc, â llawer o effeithiau yn parhau i fywyd diweddarach.¹³⁰

Canfu arolwg o ferched a merched ifanc 13-21 oed ledled y DU fod bron i bumed rhan wedi profi cyffwrdd diangen yn yr ysgol neu'r coleg.¹³¹ Canfu ymchwiliad gan y BBC adroddiadau o 4,000 o ymosodiadau rhywiol corfforol honedig a mwy na 600 o dreisio yn ysgolion y DU yn ystod y cyfnod 2012-15, a gwnaed pumed rhan ohonynt gan blant eraill.¹³² Mae'r DfE wedi cyhoeddi cyngor¹³³ sy'n gofyn i ysgolion a cholegau egluro nad yw trais ac aflonyddwch rhywiol yn dderbyniol, gan bwysleisio bod monitro a chofnodi adroddiadau trais rhywiol ac aflonyddwch rhywiol yn hanfodol. Fodd bynnag, mae cyfarwyddyd DfE¹³⁴ ar fwlio yn gyffredinol yn nodi y gall ysgolion ddefnyddio eu disgrisiwn ynghylch cofnodi digwyddiadau o'r fath. Mae Comisiynydd Plant Cymru yn awgrymu bod diffyg cysondeb wedi bod o ran trin cwynion bwlio.¹³⁵

Mae'r adroddiad llawn, gan gynnwys ein hargymhellion, ar ein gwefan yn:
www.equalityhumanrights.com/cedaw.

¹ Relating to CEDAW articles 2 and 3, CEDAW concluding observations (CO) paragraphs 9, 11, 13, 17, 29, 66 and 67 and Sustainable Development Goal (SDG) 10.

² Relating to CEDAW articles 2 and 3, CEDAW concluding observations (CO) paragraphs 9, 11, 13, 17, 29, 66 and 67 and Sustainable Development Goal (SDG) 10.

³ TUC (2016), 'UK employment rights and the EU: assessment of the impact of membership of the European Union on employment rights in the UK'. Available at:

<https://www.tuc.org.uk/sites/default/files/UK%20employment%20rights%20and%20the%20EU.pdf> [accessed: 25 May 2018].

⁴ Relating to CEDAW articles 4, 5, 7 and 8, CO paragraphs 31 and 43.a and SDGs 5, 9, 10, 11 and 16.

⁵ Fawcett Society. *Does local government work for women?* [ONLINE]. Available at: <https://www.fawcettsociety.org.uk/local-government-commission> [accessed: 29 April 2018].

⁶ Fawcett Society. *Does local government work for women?* [ONLINE]. Available at: <https://www.fawcettsociety.org.uk/local-government-commission> [accessed: 29 April 2018].

⁷ Fawcett Society. *Does local government work for women?* [ONLINE]. Available at: <https://www.fawcettsociety.org.uk/local-government-commission> [accessed: 29 April 2018].

⁸ Fawcett Society. *Does local government work for women?* [ONLINE]. Available at: <https://www.fawcettsociety.org.uk/local-government-commission> [accessed: 29 April 2018].

⁹ Murphy, J. and Jones, K. (2018), 'Local government candidates survey 2017'. Cardiff: Welsh Government, GSR report number 25/2018. Available at:

<https://gov.wales/docs/caecd/research/2018/180502-local-government-candidates-survey-2017-en.pdf> [accessed: 18 May 2018].

¹⁰ Committee on Standards in Public Life (2017). 'Intimidation in public life'. Available at: <https://www.gov.uk/government/publications/intimidation-in-public-life-a-review-by-the-committee-on-standards-in-public-life> [accessed: 29 April 2018]; Amnesty Global Insights (2017). *Unsocial media: tracking Twitter abuse against women MPs* [ONLINE]. Available at:

<https://medium.com/@AmnestyInsights/unsocial-media-tracking-twitter-abuse-against-women-mps-fc28aeca498a> [accessed: 29 April 2018].

¹¹ The Commissioner for Public Appointments (2017). 'Annual report 2016/17'. Available at: <https://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/wp-content/uploads/2017/07/OCPA-Report-2016-17-.pdf> [accessed: 29 April 2018].

¹² The Commissioner for Public Appointments (2017). 'Annual report 2016/17'. Available at: <https://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/wp-content/uploads/2017/07/OCPA-Report-2016-17-.pdf> [accessed: 29 April 2018].

¹³ Hampton, P. and Alexander, H. (2016), 'Hampton-Alexander review: FTSE women leaders. Improving gender balance in FTSE leadership'. Available at:

<https://www.gov.uk/government/publications/ftse-women-leaders-hampton-alexander-review> [accessed: 25 May 2018].

¹⁴ Courts and Tribunals Judiciary (2017). 'Judicial Diversity Committee of the Judges' Council – report on progress and action plan 2016-17'. Available at: <https://www.judiciary.gov.uk/publications/judicial-diversity-committee-of-the-judges-council-report-on-progress-and-action-plan-2016-17/> [accessed: 29 April 2018].

¹⁵ Courts and Tribunals Judiciary. *Judicial diversity statistics 2017*. [ONLINE]. Available at: <https://www.judiciary.gov.uk/about-the-judiciary/who-are-the-judiciary/diversity/judicial-diversity-statistics-2017/> [accessed: 29 April 2018].

¹⁶ Relating to CEDAW articles 1, 2, 5.a, 9 and 16, CO paragraphs 21, 35.a-d and 37 and SDGs 5 and 16.

¹⁷ Office for National Statistics (2018). 'Sexual offences in England and Wales: year ending March 2017 – Appendix tables'. Available at:

<https://www.ons.gov.uk/file?uri=/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/sexualoffencesappendixtables/yearendingmarch2017/sexualoffencesappendixtablesmarch2017.xls> [accessed: 29 April 2018].

¹⁸ Crown Prosecution Service. *CPS violence against women and girls crime report 2016-17 data*. [ONLINE]. Available at: <https://www.cps.gov.uk/publication/cps-violence-against-women-and-girls-crime-report-2016-2017-data> [accessed: 19 May 2018].

¹⁹ Office for National Statistics (2018). *Sexual offences in England and Wales: year ending December 2017*. [ONLINE]. Available at:

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingdecember2017#toc> [accessed: 18 May 2018].

²⁰ IKWRO. 2017. *Press release: 53% rise in "honour" based violence cases reported to the police since the criminalisation of forced marriage*. [ONLINE]. Available at:

<http://ikwro.org.uk/2017/11/violence-criminalisation-marriage/> [accessed: 29 April 2018].

²¹ Rape incidents and crime data for England and Wales 2016-17. Available at:

<https://www.gov.uk/government/statistics/police-recorded-crime-open-data-tables> [accessed: 16 January 2018].

- ²² Partner abuse is defined as any non-physical abuse, threats, force, sexual assault or stalking where the perpetrator is a partner or ex-partner. See: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/compendium/focusonviolentcrimeandsexualoffences/yearendingmarch2016/domesticabusesexualassaultandstalking> [accessed: 19 May 2018].
- ²³ Rape Crisis England & Wales. *Statistics*. [ONLINE]. Available at: <https://rapecrisis.org.uk/statistics.php> [accessed : 16 January 2018].
- ²⁴ Her Majesty's Inspectorate of Constabulary (2015), 'The depths of dishonour: Hidden voices and shameful crimes. An inspection of the policy response to honour-based violence, forced marriage and female genital mutilation', chapter 6. Available at: <https://www.justiceinspectors.gov.uk/hmicfrs/wp-content/uploads/the-depths-of-dishonour.pdf> [accessed: 29 November 2017].
- ²⁵ Office of the High Commissioner for Human Rights. 2014. *Press release: UK: UN rights expert calls for improved actions to fight violence against women and girls*. [ONLINE]. Available at: <http://www.ohchr.org/EN/NewsEvents/Pages/DisplayNews.aspx?NewsID=14519&LangID=E> [accessed: 25 May 2018].
- ²⁶ Welsh Women's Aid (2017). 'Welsh Women's Aid: State of the sector report 2017'. Available at: <http://www.welshwomensaid.org.uk/2017/12/welsh-womens-aid-state-sector-report-2017/> [accessed: 16 February 2018].
- ²⁷ Home Office (2016). 'Violence against women and girls: national statement of expectations'. Available at: <https://www.gov.uk/government/publications/violence-against-women-and-girls-national-statement-of-expectations> [accessed: 25 May 2018].
- ²⁸ Office of the High Commissioner for Human Rights (2015). 'Report of the Special Rapporteur on violence against women, its causes and consequences, Rashida Manjoo: Mission to the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland'. Available at: <http://www.ohchr.org/Documents/Issues/Women/SR/A.HRC.29.27.Add.2.pdf> [accessed: 29 April 2018].
- ²⁹ Equality and Human Rights Commission (2017). 'Disability rights in the UK. UK Independent Mechanism. Submission to inform the CRPD List of Issues on the UK', p.4 and p.46. Available at: https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/united_kingdom_main_submission_to_crpd_uk_loi_-_ukim13march.pdf [accessed: 29 April 2018].
- ³⁰ Specialised services for disabled women that provide accessible support are sparse. See: Woodin, S., Shah, S. and Tsitsou, L. (2014), 'National empirical report UK: Access to specialised victim support services for women with disabilities who have experienced violence'. Available at: <http://women-disabilities-violence.humanrights.at/countries/united-kingdom> [accessed: 29 April 2018]; 'Women's Aid annual survey 2015'. Available at: <https://www.womensaid.org.uk/research-and-publications/annual-survey-2015/> [accessed: 25 May 2018]; Harvey, S., Mandair, S. and Holly, J. (2014), 'Case by case: Refuge provision in London for survivors of domestic violence who use alcohol and other drugs or have mental health problems'. London: AVA & Solace Women's Aid. Available at: <https://avaproject.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/Case-by-Case-London-refuge-provision-Full-Report.pdf> [accessed: 29 April 2018].
- ³¹ Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015. Available at: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/3/contents> [accessed: 19 January 2018].
- ³² Section 76 of the Serious Crime Act 2015. Available at: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/9/section/76/enacted> [accessed: 25 May 2018].
- ³³ Home Office (2016), 'Ending violence against women and girls strategy 2016 to 2020'. Available at: <https://www.gov.uk/government/publications/strategy-to-end-violence-against-women-and-girls-2016-to-2020> [accessed: 10 January 2018].
